**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

## PWNC

Eitem 6: STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a mabwysiadwyd y Strategaeth Toiledau Lleol atodol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae rhan 8 o'r Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Mae'r Ddeddf yn gwneud hi'n ofynnol i gynnal adolygiadau cyson a chyflwyno adroddiadau cynnydd yn ddilynol. Mae'r strategaeth bresennol yn dyddio nôl i 2019, ac rydym wedi ei ddiweddaru yn unol â'r gofyn. Gofynnir felly i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Lleol 2025.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

## PWNC

Eitem 7: MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOL NEBO

## PENDERFYNIAD

Rhoddwyd caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig a nodir yn 1.1 am fod angen cyfarch sefyllfa fregus Ysgol Nebo. Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo wedi bod yn isel ers peth amser. Yn ôl niferoedd Medi 2025, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 sy'n mynychu'r ysgol ac 1 dysgwr yn y Meithrin, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcanion o 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

## PWNC

Eitem 8: MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOL BALADEULYN

## PENDERFYNIAD

Rhoddwyd caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig a nodir yn 1.1 am fod angen cyfarch sefyllfa fregus Ysgol Baladeulyn. Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn wedi bod yn isel ers peth amser. Yn ôl niferoedd Medi 2025, dim ond 6 dysgwr llawn amser sy'n mynychu'r ysgol gyda 2 arall yn y meithrin, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcanion o 8 dysgwr llawn amser ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 9: CYTUNDEB ADY A CHYNHWYSIAD GWYNEDD AC YNYS MON

---

**PENDERFYNIAD**

Comisiynwyd y Pennaeth Addysg i gynllunio sefydlu Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd erbyn Medi 2026, i gwrdd ag anghenion disgyblion Gwynedd yn y dyfodol ac yn sgil hynny diddymu'r trefniant cydweithio hanesyddol gyda Chyngor Ynys Môn.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r pwysau cynyddol a chynnydd yng nghymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir yn golygu fod angen i ni ail-fodelu'r gwasanaeth presennol er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau addas i bwrpas i gwrdd ag anghenion disgyblion y sir. Mae angen cefnogaeth y Cabinet i wneud y newid i'r ddarpariaeth gan gychwyn gyda ail ddylunio'r gwasanaethau cefnogol arbenigol a ddarperir i ddisgyblion mewn ysgolion prif lif. Fel cam cyntaf, mae'r Adran eisoes wedi adolygu'n darpariaeth Cynhwysiad a bu i'r Cabinet benderfynu sefydlu Unedau Cynhwysiad newydd. Mae'r adroddiad hwn yn delio gydag ail gam y newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd sylweddol yn y galw am gefnogaeth ADY ers y cyfnod Covid.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

## PWNC

Eitem 10: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2024-2025

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd Adroddiad Monitro Blynyddol 7 (Atodiad 1) a chytunwyd i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2025.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

Bydd aelodau'r Cabinet yn cofio o'r adroddiad AMB a gyflwynwyd llynedd, gan fod trefniant cyd-weithio rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion Polisi Cynllunio bellach wedi dod i ben, mae cynnwys yr AMB yma, ynghyd a'r rhai dilynol yn canolbwyntio'n ar dystiolaeth sydd yn benodol berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth werthfawr i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Mae'r Adroddiad yn cyflwyno'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025 ynghyd a sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar y ddogfen.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 11: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/2025 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

---

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd ac chymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

i. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd fis Mawrth 2019 ac yn sgil fe hynny fe gyhoeddwyd y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/30 (CAHN) fis Mawrth 2022. Mae'r CAHN hefyd yn un o'r prosiectau o fewn pennawd Gwynedd Werdd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.
ii. Daeth y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) i fodolaeth ar ddechrau blwyddyn 2022/23 ac ers hynny fe gyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
iii. Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad blynyddol hwn eisoes wedi ei graffu gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur a thrwy drefniadau herio perfformiad mewnol y Cyngor, ond mae'r adroddiad blynyddol yn dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd am y tro cyntaf.
iv. Gan ddilyn yr un drefn â blynyddoedd blaenorol, dyma gyfle i'r Cabinet benderfynu os ydynt yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cywir a chytbwys a'i peidio o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024/25 er mwyn cyrraedd uchelgais y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).
v. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Rydym yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn 'dyletswydd Adran 6' o fewn Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2024/25.
vi. Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad Blynyddol mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 18 Medi, ac mae sylwadau'r pwyllgor wedi eu crynhoi yn 4. isod.

---

vii. Gall y Cabinet hefyd gynnig sylwadau ac arweiniad ar drywydd gwaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i'r dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sydd wedi nodi argymhellion, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
## CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Hydref 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 29 Hydref 2025 |

**PWNC**

Eitem 12: CYNLLUN RHEOLI MAES PARCIO DINAS DINLLE

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd y cynnig yn yr adroddiad i fwrw ymlaen gyda'r proses ar gyfer gwneud gorchymyn parcio oddi ar y stryd parhaol ym Maes Parcio Dinas Dinlle.

Dirprwywyd awdurdod i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn unol â'r Rheoliadau i baratoi gorchymyn drafft, cyhoeddi Rhybudd o Fwriad i wneud y gorchymyn gyda cyfnod ymateb cyhoeddus, coladu ac ystyried pob ymateb, ymateb i wrthwynebwyr ac addasu'r cynnig os oes angen ac, yn ddarostyngedig i'r prosesau yma Gwneud y Gorchymyn terfynol a chyhoeddi Hysbysiad o Wneud Gorchymyn.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn bwrw ymlaen gyda chamau cyfreithiol o gyflwyno Gorchymyn Traffig Parhaol ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle gan ddilyn y drefn statudol a welir yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig i Awdurdodau Lleol (Trefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r bwriad o wneud gorchymyn o'r newydd gan sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau a'r gofynion perthnasol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganodd y Cynghorydd Llio Elenid Owen fuddiant personol gan ei bod yn Aelod Lleol. Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
Bu i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal rhwng 16 Awst a 30 Medi 2024 a chaiff y prif gasgliadau eu cynnwys yn yr adroddiad.